



# Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 6 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae’r rhifyn yma yn llawn o ddiweddariadau o bob cwr o’r sector a’n partneriaid, gan gynnwys dyddiadau hyfforddiant newydd sydd wedi’u rhyddhau a manylion am fwrsariaethau a llefydd am ddim a allai fod ar gael i gefnogi eich datblygiad. Rydym hefyd yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a’r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion



Cynhaliwyd ein Cynhadledd Arfer Arloesol flynyddol ar Faes Sioe Frenhinol Cymru ger Llanfair-ym-Muallt ddydd Mercher 2 Gorffennaf 2025 - digwyddiad llwyddiannus dros ben. Darllenwch ein Datganiad i'r Wasg ar ein gwefan:Cynhadledd Arfer Arloesol - Un Llais Cymru

--------------------------------

nalc
National Association of Local Councils

Manylion pellach

Mae ein cydweithwyr yn NALC wedi cyhoeddi ddogfen swmpus iawn o dan y pennawd "Local Councils Explained "- ddogfen defnyddiol tu hwnt

NODYN PWYSIG - Mae'r ddogfen yma ar gael ar ein gwefan i cynghorau sydd yn aelodau yn unig, ac ni chaniateir eu rhannu ag eraill .

--------------------------------

## Cydgrynhoi'r Gyfraith Gynllunio yng Nghymru - Cyhoeddi Bil Cynllunio (Cymru) Drafft /

Mae fersiwn ddrafft o'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Nodiadau Esboniadol drafft ategol wedi'u cyhoeddi cyn eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd, disgwylir i hynny ddigwydd ym mis Medi. Mae hyn er mwyn eich cefnogi chi, Aelodau'r Senedd ac eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith gynllunio, i ddechrau dod yn gyfarwydd â strwythur arfaethedig y Bil. Mae'r Bil drafft a'r dogfennau ategol i'w gweld yma – Bil Drafft Cynllunio (Cymru): trosolwg | LLYW.CYMRU

Mae'n bwysig nodi **nad** fersiwn derfynol y Bil na'r Nodiadau Esboniadol yw'r rhain, ac nid yw hwn ychwaith yn gam ymgynghori na chraffu anffurfiol ar gyfer y gwaith hwn. Cyfrifoldeb y Senedd, ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, fydd ymgymryd â'r gwaith craffu ffurfiol a byddwch yn gallu cyfrannu at hynny ar y cam hwnnw.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfen gorchudd sy'n esbonio statws y Bil a'r Nodiadau Esboniadol, pam ein bod yn eu cyhoeddi nawr, ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am sut i ddarllen y Bil ac ati. Mae'r ddogfen hon hefyd yn tynnu sylw at faterion sy'n gysylltiedig â chynllunio a allai fod o ddiddordeb fel newidiadau i derminoleg, strwythur a diffiniadau.

Os bydd y Senedd yn pasio'r Bil, bydd canllawiau'n cael eu paratoi i helpu rhanddeiliaid cynllunio i baratoi ar gyfer pan ddaw'r Ddeddf i rym.

Os hoffech ddysgu mwy am sut mae'r gwaith craffu hwnnw'n digwydd a sut y gallwch gyfrannu, cysylltwch â cydgrynhoicynllunio@llyw.cymru

---

## Galwad am gynigion ar atebion addasu trawsnewidiol

Manylion


MACC Hub
Together for Transformative Action

Nod y galwad ariannu MACC hon yw cataleiddio addasu hinsawdd trawsnewidiol ledled y DU trwy gefnogi prosiectau addasu arloesol, sy'n seiliedig ar le. Er mwyn cynyddu allbynnau prosiectau i'r eithaf, mae'r gronfa wedi'i chynllunio'n fwriadol i feithrin cydweithio rhwng busnesau, llunwyr polisi, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, sefydliadau iechyd a gofal, grwpiau cymunedol a chyrff anllywodraethol. Rhoddir pwyslais cryf ar gynhwysiant a chreu atebion ymarferol, gredadwy.

---

## Ar gael i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu’r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

**.......................**

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

### Dyma pa modiwlau sydd ar y gweill yn yr wythnosau nesaf

01/07/2025 Sgiliau Cadeirio -Modiwl 10

01/07/2025 Cyfarfod Y Cyngor- Modiwl 5

02/07/2025 Cyllid Llywodraeth Leol - Modiwl 6

02/07/2025 Cynaliadwyedd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Modiwl 20

03/07/2025 Rheoli Gwybodaeth - Modiwl 15

07/07/2025 Rhan 1 - Modiwl 25

07/07/2025 Cod Ymddygiad - Modiwl 9

07/07/2025 Cyllid Llywodraeth Leol estynedig - Modiwl 21

08/07/2025 Dealltwriaeth o'r Gyfraith - Modiwl 4

08/07/2025 Cynefino Cynghorwyr Newydd

10/07/2025 Cyfarfod Y Cyngor - Modiwl 5

10/07/2025 Rheolaeth Effeithiol ar Staff - Modiwl 18

**Cliciwch yma i llogi lle**

---

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

**Mwy o manylion**

-------------------------------

## Swyddi Penodol Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno inni rhannu

**Penodiadau Cyhoeddus**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Penodi Cadeirydd Anweithredol o'r Bwrdd - Cymru Greadigol -

Penodi Aelod Anweithredol o'r Bwrdd - Cymru Greadigol

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 14/07/2025 am 16:00.**

**Penodi Aelod Annibynnol (Cyllid) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro –**

**Penodi Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro -**

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 15/07/2025 am 16:00.**

-----------------------------

**Rheolwr y Tîm Cymorth Busnes**

**Ystod cyflog neu fand Cyflog**: Uwch Swyddog Gweithredol £45,974 i £54,431

**Patrwm Gwaith**: Llawn amser (croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio rhan-amser, fel rhan o rannu swydd neu sy'n gweithio'n llawn amser)

**Cyfarwyddiaeth:** Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

**Cangen**: Tîm Cymorth Busnes/Gwasanaethau Cymorth

**Lleoliad (au)**: Ledled Cymru

**Dyddiad cau**: **08/07/2025, 16:00**

Rheolwr y Tîm Cymorth Busnes -

Pwynt cyswllt i gael rhagor o wybodaeth am y swydd:**Penny Aubrey CIWHR@gov.wales**

Am fanylion llawn:

Gweithio i ni | Arolygiaeth Gofal Cymru

---

## Cadwch y Dyddiad

### Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol

**Dydd Mercher 3 Medi**

Gwahoddir bob Cyngor yng Nghymru i fynychu. Lle fyddwn yn ystyried cyfansoddiad newydd. Gofynnir yn garedig i clercod ein hysbysebu o manylion eich cynrychiolydd a dirprwy

### Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru

**Dydd Mercher 1 Hydref**

Ymunwch â ni am grynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn gan Un Llais Cymru. Mae Cynghorau a Pwyllgorau Ardal eisoes wedi anfon cynigion ar gyfer y cyfarfod blynyddol

---

### Cymhwyster Llywodraethu Cymunedol 2026

Yn cychwyn ym mis Chwefror 2026, mae'r rhaglen dysgu o bell hyblyg hon yn helpu cynghorwyr a swyddogion i ddatblygu sgiliau uwch mewn gwneud penderfyniadau lleol ac arweinyddiaeth gymunedol. Efallai y bydd cymorth ariannol ar gael drwy fwrsariaethau Llywodraeth Cymru a Ymddiriedolaeth Addysgol SLCC.

**Cliciwch am y prosbectws llawn a manylion sut i gofrestru**

**Mwy o Fanylion**

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan OVW:

**Newyddion Prosiect Argyfwng Costau Byw:**

**Gweminar Cynnal Llesiant mewn Argyfwng Costau Byw**

Dydd Iau 10 Gorffennaf 10am - 12pm

Bydd y gweminar hwn yn dangos sut all Cynghorau Cymuned a Thref gefnogi llesiant yn ystod yr argyfwng costau byw, gyda syniadau ymarferol ar sut i leihau unigrwydd ac adeiladu gwytnwch. Bydd yn cynnwys darnau cnoi cil gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Tom Moses o Gyda'n Gilydd Dros Newid, a bydd yn amlygu enghreifftiau go iawn gan Gyngor Tref Crymych a Chyngor Dinas Tŷ Ddewi a'u Cynlluniau Llesiant Cymunedol.

**Dolen Zoom ar gyfer y sesiwn**

**Cofrestru ar gyfer y sesiwn**

## Arolwg Cefnogaeth i Deuluoedd yn ystod Gwyliau'r Haf

### Cais am Wybodaeth – Bwyd am Ddim dros Wyliau'r Haf

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn mapio'r cymorth fydd ar gael i deuluoedd dros **wyliau** haf ysgolion eleni a byddem yn ddiolchgar am eich cymorth.

Os yw eich **c**yngor cymuned neu dref yn cynllunio unrhyw **bro**siectau sy'n darparu bwyd am ddim i deuluoedd yn ystod y cyfnod hwn — neu os ydych yn meddwl gwneud hynny — byddem yn ddiolchgar os gallech lenwi arolwg byr.

Nid yw'r arolwg yn cymryd mwy na **5** munud a bydd yn ein helpu i ddeall pa gymorth sy'n cael ei gynnig.

**Dolen i'r Arolwg**

Hyd yn oed os nad ydych yn trefnu prosiect, gofynnwn ichi roi gwybod inni trwy ateb y cwestiwn perthnasol yn yr arolwg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod eich cynlluniau ymhellach, cofiwch fod croeso ichi gysylltu. Diolch ichi am eich amser ac am eich cefnogaeth gyson i deuluoedd yn eich cymuned

---

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

Mae Un Llais Cymru yn cynnal digwyddiadau i ddathlu **Wythnos Natur Cymru 2025**.

Cliciwch ar bob digwyddiad isod am ragor o wybodaeth:

**Ymweliad â Chymunedol Stryd Y Ddôl – Pontypridd**

**7.7.25 @10.30am**

**Taith Meithrinfa arbenigol blodau gwyllt Celtic Wildflowers – Abertawe**

**8.7.25 @10am**

**Taith Meithrinfa Blodau Gwyllt a Goed Sir Ddinbych – Llanelwy**

**10.7.25 @10am**

**Mwy o Fanylion**

---

**Strategaeth Tlodi Plant Cymru – Ymarfer Ymgysylltu â Phobl â Phrofiad Bywyd**

Bob tair blynedd mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Rhagfyr 2025. Fel rhan o'r adroddiad cynnydd, rydym wedi ymrwymo i gynnwys tystiolaeth o brofiad bywyd i helpu i ddangos sut rydym yn cyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y strategaeth.

Bydd yr adroddiad cynnydd hefyd yn cynnwys:

- **Fframwaith monitro** i adrodd ar ddata cadarn ar lefel poblogaeth a gesglir yn rheolaidd ar ystod o ddangosyddion tlodi plant i roi darlun o effaith a thrywydd canlyniadau i blant a phobl ifanc.
- **Adroddiad cynnydd polisi** i roi diweddariad manwl ar effaith polisïau a chamau gweithredu penodol ac allbynnau cysylltiedig, wrth gyflawni cynnydd yn erbyn pum amcan, pum blaenoriaeth ac 19 ymrwymiad y strategaeth.

**Cofnodi Profiadau Bywyd**

Mae tystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn darparu gwybodaeth bwysig am sut mae polisïau a chamau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar lefel aelwydydd ac ar lefel gymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gofyn tri chwestiwn allweddol i bobl sydd â phrofiad bywyd, a fydd yn sefydlu a fu unrhyw newidiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf sydd wedi effeithio ar bobl, pa rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a beth y gellid ei wneud yn y dyfodol i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

**Ymgysylltu**

Rydym yn gofyn am eich help i gasglu'r wybodaeth hon. Rydym yn cynnig cyllid grant tymor byr i hwyluso cyfleoedd i gael trafodaethau gyda phlant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod eu mewnwelediad, eu barn a'u pryderon yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad cynnydd sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025.

Mae cyllid o hyd at £4995 fesul sefydliad ar gael i'r trydydd sector, neu i sefydliadau neu grwpiau cymunedol sy'n arbenigo mewn cefnogi, ymgysylltu neu weithio gyda phobl sydd â nodweddion gwarchodedig a/neu blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dlodi. Ymhlith elfennau eraill, gall nodweddion gwarchodedig gynnwys ethnigrwydd, rhywedd, anabledd, rhywioldeb.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am y cyllid hwn, cysylltwch â ni yn: **TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cymru** am ffurflen gais, gan nodi a fyddwch yn targedu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a / neu blant a phobl ifanc yn benodol.

---

**Ydach wedi tanysgrifio i gylchlythyr Archwilio Cymru?**

**Dyma** linc **i'w gwefan lle allwch chi tanysgrifio i gylchlythyr defnyddiol llawn gwybodaeth.**

---

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24 College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite